

Beth i'w gynnwys yn eich asesiad risg COVID-19

Enw'r cwmni:

Cynhaliwyd yr asesiad gan:

Dyddiad y cynhaliwyd yr asesiad:

Fel cyflogwr mae rhaid i chi amddiffyn pobl rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau rhesymol i amddiffyn eich gweithwyr ac eraill rhag coronafeirws. Gelwir hwn yn asesiad risg COVID-19 a bydd yn eich helpu i reoli'r risg ac amddiffyn pobl. Mae rhaid i chi:

- adnabod pa weithgareddau neu sefyllfaoedd a allai achosi trosglwyddo'r firws
- meddwl pwy a all fod mewn perygl
- penderfynu pa mor debygol ydyw gall rhywun ddod i gysylltiad â'r firws
- gweithredu i ddileu'r gweithgaredd neu'r sefyllfa, neu os nad yw hynny'n bosibl, i reoli'r risg

Wrth gwblhau'r asesiad gwnewch yn siwr eich bod yn siarad â'ch gweithwyr a'u cynrychiolwyr i esbonio'r mesurau rydych yn eu gwneud. Gallant hefyd ddarparu gwybodaeth werthfawr ar sut gallwch reoli'r risgau.

Gallwch ddefnyddio'r ddogfen hon i'ch helpu i wneud yn siwr eich bod wedi gwneud yr hyn sydd ei angen i ddiogelu gweithwyr ac eraill. Unwaith eich bod wedi cwblhau'r asesiad risg bydd rhaid i chi fonitro hefyd i wneud yn siwr bod yr hyn rydych wedi rhoi mewn lle yn gweithio.

Rhagor o wybodaeth ar [gweithio'n ddiogel yn ystod y pandemig coronafeirws](#).

[Canllawiau craidd HSE ar reoli risg](#).

Yn y UK gallai rhai rheolau fel cadw pellter cymdeithasol fod yn wahanol ym mhob un o'r gwledydd datganoledig. Fodd bynnag, mae HSE yn rheoleiddio ym mhob un o'r gwledydd hyn. Dylech wirio'r canllawiau iechyd cyhoeddus ar gyfer y wlad rydych ynddi:

- [Cymru](#)
- [Lloegr](#)
- [Yr Alban](#)

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
Cael neu ledaenu coronafeirws trwy beidio â golchi dwylo neu beidio â'u golchi'n ddigonol	<p>Gweithwyr</p> <p>Cwsmeriaid</p> <p>Contractwyr</p> <p>Gyrwyr sy'n dod i'ch busnes</p> <p>Gyrwyr sy'n mynd allan i'ch busnes</p> <p>Ymwelwyr</p>	<p>Dilyn ein canllawiau ar lannhau, hylendid a hylif hylendid dwylo</p> <p>- Darparu dŵr, sebon, a chyfleusterau sychu mewn lleoedd ymolchi</p> <p>- Darparu gwybodaeth am sut i olchi dwylo'n iawn ac arddangos poster</p> <p>- Yn seiliedig ar faint o weithwyr sy'n dod i'ch gweithle penderfynwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ faint o leoedd ymolchi sydd angen ➤ ble dylid eu lleoli <p>Efallai bod digon o gyfleusterau gennych eisoes</p> <p>- Darparu hylif hylendid dwylo ar gyfer yr achlysuron pan na all pobl olchi eu dwylo</p> <p>- Mae dyletswydd gyfreithiol i ddarparu cyfleusterau lles a chyfleusterau golchi i yrwyr sy'n ymweld</p> <p>- Dylech siarad â rheolwyr mewn unrhyw safleoedd mae eich gyrwyr yn ymweld â nhw i sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau golchi dwylo</p>	<p>- Rhoi monitro ac goruchwylio mewn lle i sicrhau bod pobl yn dilyn rheolaethau</p> <p>- Dangos arwyddion i atgoffa pobl i olchi eu dwylo</p> <p>- Darparu gwybodaeth i'ch gweithwyr am bryd a lle mae angen iddynt olchi eu dwylo</p> <p>- Adnabod os a ble mae angen cyfleusterau golchi dwylo ychwanegol</p> <p>- Os na all pobl ochi eu dwylo, darparwch wybodaeth am sut a ble i ddefnyddio hylif hylendid</p> <p>- Adnabod sut byddwch yn ail-lenwi cyfleustodau golchi dwylo/hylif hylendid dwylo</p> <p>- Sicrhau bod pobl yn gwirio eu croen am sychder a chracio a dweud wrthynt am adrodd i</p>		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
			chi os bydd problem		
Cael neu ledaenu coronafeirws mewn ardaloedd a ddefnyddir yn aml fel ffreuturiau, coridorau, toiledau, mynedfeydd, allanfeydd, lifftau, ystafelloedd newid, a mannau cyffredin eraill	Gweithwyr Cwsmeriaid Ymwelwyr Contractwyr Gyrwyr sy'n dod i'ch busnes	Dilyn ein canllawiau ar gyfleusterau lles, ffreuturiau ayyb: Adnabod: <ul style="list-style-type: none"> ➤ mannau lle bydd pobl yn ymgasglu, ee toiledau, ffreuturau, ystafelloedd gwisgo, mynedfa, ystafelloedd cyfarfod, mannau ysmegu, mannau gwneud te, ceginau ayyb ➤ mannau cul sy'n golygu na all pobl gadw'r rheolau pellter cymdeithasol, ee coridorau cul, drysau, mannau gwasanaethu cwsmeriaid, storfeydd ➤ mannau a chyfarpar lle bydd pobl yn cyffwrdd â'r un arwynebau, fel mewn ceginau, ee tegelli, cynfennau cyfrannol ayyb ➤ mannau ac arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml ond sy'n anodd eu glanhau ➤ mannau cymunedol lle efallai bydd aer yn symud llai na mewn mannau gwaith eraill, ee ceginau heb ffenestri sy'n agor neu heb eu hawyru'n fecanyddol 	- Gosod trefn monitro a goruchwyllo i sicrhau bod pobl yn dilyn rheolau, ee dilyn gweithdrefnau hylendid, golchi dwylo, dilyn systemau unffordd - Gallai adrodd damweiniau fu bron yn digwydd helpu hefyd i adnabod pa reolau na ellir eu dilyn neu nad yw pobl yn gwneud beth ddylent		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<p>Cytuno ar y cyfuniad o rheolaethau byddwch yn gosod i leihau'r risgau. Gall hyn gynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ gyfyngu'r nifer o bobl mewn ystafelloedd fel gellir cwrdd â rheolau pellter cymdeithasol, ee darwahanu egwyliau, cael uchafsymiau mewn ystafelloedd ➤ aildrefnu cyfleusterau mewn manau cymunedol fel pellhau byrddau mewn ystafelloedd, ffreuterau ayyb fel gellir cwrdd â rheolau pellter cymdeithasol ➤ lle bydd yn bosibl gosod rhwystrau anhydraidd (ee Perspex mewn derbynfeydd) i leihau cysylltiadau ➤ cynyddu defnydd cyfleusterau cyfarfod ar-lein, hyd yn oed i bobl sy'n gweithio yn yr un adeilad, i leihau'r niferoedd sy'n symud ➤ gosog systemau unffordd mewn coridorau neu lwybrau a ddefnyddir yn aml i reoli llif pobl yn symud trwy weithleoedd ac i gwrdd â rheolau pellter cymdeithasol ➤ gadael drysau nad ydynt yn drysau tân ar agor i leihau'r cysylltiad â drysau ac o bosibl i wella awyru'r gweithle 			

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<ul style="list-style-type: none"> ➤ darparu cypyrddau i bobl gadw eiddo personol ynddynt fel na chânt eu gadael mewn mannau agored ➤ cadw arwynebau, fel ochrau a byrddau cegin, mewn mannau cymunedol yn glir i bobl eistedd a bwyta ac i hwyluso glanhau ➤ darparu cyfleusterau ymolchi a hylif hylendid dwylo mewn mannau hygyrch yn agos i ble caiff pobl gysylltiad â mannau cymunedol prysur, ee cyfleusterau hylendid/ymolchi ym mynedfeydd/allanfeydd ffreuturau ➤ gosod arwyddion gan atgoffa pobl i olchi a glanweithio dwylo ac i beidio â chyffwrdd â'u hwynebau ➤ gosod trefn glanhau i sicrhau glanhad mannau cymundeol prysur – ystyriwch amllder, lefel glanhad, a phwy i'w wneud 			
<p>Cael neu ledaenu coronafeirws trwy weithwyr yn byw a/neu yn teithio i'r gwaith gyda'i gilydd</p>	<p>Gweithwyr</p>	<p>– Adnabod grwpiau o weithwyr sy'n byw gyda'i gilydd a'u grwpio yn garfan gwaith</p> <p>– Adnabod grwpiau o weithwyr sy'n teithio i'r gwaith gyda'i gilydd a'u grwpio yn garfan gwaith</p>	<p>Trafod â gweithwyr sy'n byw ac/neu'n teithio gyda'i gilydd i gytuno sut i atal risgau lledaenu coronafeirws</p>		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
<p>Cael neu ledaenu coronafeirws trwy beidio â glanhau arwynebau, cyfarpar, a gweithfannau</p>	<p>Gweithwyr Cwsmeriaid Ymwelwyr Contractwyr Gyrwyr sy'n dod i'ch busnes Gyrwyr sy'n mynd allan i'ch busnes</p>	<p>Defnyddio canllawiau ar glanhau a hylendid yn ystod y pandemig coronafeirws</p> <p>- Adnabod arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml gan lawer o bobl (mannau cyffredin yn aml), ee canllawiau, handlenni drysau, handlenni drysau ceir (tu mewn a thu allan), cyfarpar cyfrannol ayybc a rhagnodi pa amledd a lefel y glanhau a chan bwy</p> <p>- Hyfforddi pobl sut mae gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer peryglon gwaith normal a sut i'w gadw'n lân</p> <p>- Lleihau'r angen i bobl symud o gwmpas eich safle cymaint ag sy'n bosibl. Bydd hyn yn lleihau lledaeniad posibl unrhyw heintiad trwy arwynebau a gyffyrddir arnynt</p> <p>- Osgoi rhannu cyfarpar gwaith trwy eu dyrannu'n unigol neu trwy osod gweithdrefnau glanhau i'w lanhau rhwng pob defnyddiwr</p> <p>- Adnabod lle gallwch leihau cysylltiad pobl ag arwynebau, ee trwy adael drysau nad ydynt yn drysau tân ar agor, darparu gwaith papur digyswllt,</p>	<p>- Gosod trefn monitro a goruchwyllo i sicrhau bod pobl yn dilyn rheolau, h.y. gwneud y gweithdrefnau glanhau</p> <p>- Darparu gwybodaeth sy'n dweud wrth bobl pwy sydd angen glanhau a phryd</p> <p>- Darparu hyfforddiant i bobl sydd angen glanhau. Dylech gynnwys gwybodaeth ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ y deunyddiau mae angen iddynt ddefnyddio ➤ rhagofalon mae rhaid iddynt eu cymryd ➤ yr ardaloedd mae rhaid iddynt eu glanhau <p>- Adnabod sut rydych yn mynd i ail-lenwi deunyddiau glanhau</p>		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<p>defnyddio dogfennau electronig yn hytrach na gwaith papur</p> <ul style="list-style-type: none"> - Adnabod ardaloedd eraill fydd angen eu glanhau i atal lledaenu coronafeirws, ee ffreuturau, ardaloedd gorffwyso, cyfleusterau lles, cerbydau ac amlinellwch amllder a lefel y glanhau a phwy fydd yn ei wneud - Adnabod pa gynhyrchion glanhau sydd eu hangen (ee llieinau arwynebau, glanhawyr a dŵr ayyb) a ble dylid eu defnyddio, ee llieinau mewn cerbydau, dŵr a glamhawyr ar arwynebau gwaith ayyb - Cadw arwynebau'n glir i'w wneud yn haws eu glanhau a lleihau tebygolrwydd heintio pethau - Darparu mwy o biniau a'u gwagio'n mwy aml - Darparu ardaloedd i bobl cadw eiddo personol a chadw eitemau personol allan o ardaloedd gwaith - glanhau pethau fel blychau aildefnyddiadwy yn rheolaidd 			

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<ul style="list-style-type: none"> - Gosod trefn glanhau os yw rhywun yn datblygu symptomau coronafeirws yn y gwaith 			
Effeithio ar les ac iechyd meddwl trwy ynysu neu bryder am goronafeirws	Gweithwyr	<p>Dilyn ein canllawiau ar strain ac iechyd meddwl</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynnal cyfarfodydd/galwadau cadw mewn cysylltiad rheolaidd â phobl sy'n gweithio gartref i siarad am unrhyw broblemau gwaith - Siarad yn agored â gweithyr am y posibilrwydd y cânt eu heffeithio a dweud wrthynt beth i'w wneud i godi pryderon neu at bwy i fynd fel gallant siarad trwy bethau - Cynnwys gweithwyr wrth gwblhau asesiadau risg fel gallant helpu adnabod problemau a datrysiadau - Diweddarau gweithwyr ar beth sy'n digwydd fel byddant yn teimlo'n gyfrannog a thawelach eu meddwl - Trafod problem blinder â gweithwyr a sicrhau eu bod yn cymryd seibiannau rheolaidd, yn cael eu hannog i gymryd gwyliau, gosod oriau gwaith i sicrhau nad ydynt yn gweithio oriau hir 	<p>Cyngor a chymorth bellach</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhannu gwybodaeth a chyngor â gweithwyr am les a iechyd meddwl - Ystyried uwchgyfeirio i Iechyd Galwedigaethol os yw problemau straen a gorbryder yn cael eu hadnabod - Lle bod gennych rhaglen cynorthwyo gweithwyr, anogwch weithwyr i'w defnyddio i siarad trwy strategaethau cefnogol 		
Cael neu ledaenu'r	Gweithwyr	Dilyn ein canllaw ar ar gadw pellter cymdeithasol.	- Gosod trefniadau monitro a goruchwyllo i sicrhau bod		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
firws trwy beidio â chadw pellter cymdeithasol	<p>Cwsmeriaid</p> <p>Contractwyr</p> <p>Gyrwyr sy'n dod i/ mynd allan i'ch busnes</p> <p>Ymwelwyr</p>	<p>- Adnabod lleoedd lle, o dan amgylchiadau normal, na fyddai gweithwyr yn gallu cadw rheolau pellter cymdeithasol</p> <p>- Adnabod sut gallwch gadw pobl ar wahân yn unol â rheolau pellter cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ defnyddio tâp ar y llawr ➤ systemau unffordd ➤ cynnal cyfarfodydd yn rhithiol yn hytrach na wyneb yn wyneb ➤ darwahanu amseroedd dechrau/gorffen ➤ cyfyngu ar niferoedd y pobl sydd ar y safle ar yr un pryd ➤ cael amseroedd penodol i gwsmeriaid ➤ aildrefnu ardaloedd gwaith a thasgau fel gall pobl gadw rheolau pellhau ➤ defnyddio lleoedd gwag yn yr adeilad ar gyfer ardaloedd seibiant lle bo'n saff gwneud ➤ creu 'gollyngfeydd' ar gyfer pasio deunyddiau rhwng pobl ➤ darparu rhagor o ardaloedd parcio neu rheoli lleoedd parcio ➤ darparu cyfleusterau i helpu pobl i gerdded neu seiclo i'r gwaith 	<p>rheolau pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn</p> <p>- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant i bobl gael deall beth maent angen gwneud</p> <p>- Darparu arwyddion a ffyrdd i gyfathrebu â phobl nad ydynt yn weithwyr beth sydd angen iddynt wneud i gadw rheolau pellter cymdeithasol</p>		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<ul style="list-style-type: none"> ➤ Lleihau cysylltiad yn swyddfeydd diogelwch i yrwyr <p>- Adnabod lle nad yw'n bosibl cadw rheolau pellter cymdeithasol ac adnabod mesurau corfforol eraill i gadw pobl ar wahân. Gall hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ sgrinâu corfforol ac atalfeydd sblash – os cânt eu defnyddio mewn cerbydau mae rhaid iddynt fod yn ddiogel, peidio ag amharu ar weladwyedd ac mae'n debyg bydd eisiau cadarnhad y gwneuthurwr i sicrhau nad ydynt yn beryglus ➤ gosod marciau ar y llawr (ee mewn lifft) i ddangos lle dylai pobl sefyll ac ym mha gyfeiriad ddylent wynebu ➤ lleihau'r nifer o pobl sy'n ddefnyddio'r lifft <p>- Os nad yw'n bosibl cadw rheolau pellter cymdeithasol a na all ddefnyddio mesurau corfforol gosodwch mesurau eraill i ddiogelu pobl. Gall hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ gweithdrefnau glanhau gwell ➤ cynyddu golchi dwylo ➤ cyfyngu'r amser bydd pobl yn treulio ar y dasg 			

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<ul style="list-style-type: none"> ➤ gosod gweithwyr gefn wrth gefn neu ochr wrth ochr yn hytrach na gweithio wyneb yn wyneb ➤ 'carfanu' timoedd fel eu bod yn gweithio â'i gilydd bob tro ➤ gwella awyru <p>- Dangos arwyddion i atgoffa pobl i gadw pellter cymdeithasol</p> <p>(Nodwch – mae angen cyfarpar diogelwch personol mewn nifer cyfyngedig o weithleodd i ddiogelu rhag risg coronafeirws)</p>			
Anhwylerau cyhyr-ysgerbydol o ganlyniad i ddefnyddio DSE yn y gartref am gyfnod hir o amser	Gweithwyr	<p>Dilyn ein canllawiau ar cyfarpar sgrinau arddangos ar ein Tudalen diogelu gweithwyr gartref</p> <p>Nid oes risg fy i bobl sy'n gweithio gartref dros dro ond os daw'r drefn hon yn un hirdymor dylid asesu'r risgau</p> <p>- Trefnu gwybodaeth a hyfforddiant i bawb sy'n gweithio gartref yn defnyddio cyfarpar sgrinau arddangos (DSE) ar sut i'w diogelu eu hunain, ee cymryd seibiannau rheolaidd, ymarferion ymestyn, gosod y cyfarpar yn gywir</p>	Ceir gwybodaeth bellach ar sut i osod gweithfan gartref yn fyrdymor a hefyd beth i'w wneud am weithio gartref yn y dymor hir ar dudalen HSE Amddifyn gweithwyr sydd gartref		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<p>- Cwblhau asesiad DSE ar gyfer pobl sy'n gweithio gartref yn y dymor hwy ac adnabod pa gyfarpar sydd eisiau i ganiatau iddynt weithio'n ddiogel gartref</p>			
<p>Awyru gwael yn y gweithle gan arwain i risgau lledaenu coronafeirws</p>	<p>Gweithwyr Cwsmeriaid Contractwyr</p>	<p>Dilyn ein canllawiau ar awyru gwresogi a thymheru awyr (HVAC)</p> <p>- Adnabod a oes angen awyru ychwanegol arnoch i gynyddu awyru drwy'ch gweithle neu rannau ohono</p> <p>- Awyr ffres yw'r ffordd ddewisol i awyru'ch gweithle felly gall agor ffenestri a drysau (nad ydynt yn ddrysau tân) helpu</p> <p>- Os oes angen mwy o awyru arnoch dylech ei ddarparu, ee awyru mecanyddol, ffaniau ayyb</p> <p>- Newid systemau awyru gwresogi a thymheru awyr (HVAC) i dynnu awyr ffres lle gallant fod , yn hytrach nag ailgylchu awyr</p>	<p>- cynnal systemau amgylchu awyr yn unol â awgrymiadau cynhyrchwyr</p>		
<p>Cynyddu risg haent a chymhlethdodau i weithwyr bregus</p>	<p>Gweithwyr</p>	<p>- Adnabod pwy yn eich gweithle sydd mewn un neu fwy o'r categorïau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ eithriadol o fregus yn glinigol ➤ pobl sy'n hunan-ynysu ➤ pobl â symptomau coronafeirws 	<p>- Gosod trefniadau fel bydd pobl yn gwybod pryd i'ch hysbysu eu bod mewn un o'r categorïau hyn, ee maent yn dechrau hey start cemotherapi neu'n feichiog</p>		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<ul style="list-style-type: none"> - Trafod â gweithwyr beth yw eu risgau personol ac adnabod beth sydd eisiau gwneud ym mhob achos - Adnabod sut a ble bydd rhywun mewn un o'r categorïau yn gweithle yn unol â chanllawiau presennol y llywodraeth - Os ydynt yn dod i mewn i'r gwaith adnabyddwch sut byddwch yn eu diogelu trwy gweithdrefnau pellter cymdeithasol a hylendid - Dilyn canllawiau presennol y llywodraeth i gyflogwyr ar gwasanaeth profi ac olrhain y GIG 			
<p>Dod i gysylltiad â pheryglon yn y gweithle oherwydd nid yw'n bosibl cael cyfarpar diogelu personol (PPE) normal</p>	Gweithwyr	<p>Dilyn ein canllawiau ar PPE yn ystod y pandemig</p> <p>Mae nifer cyfyngedig o amgylchiadau lle mae angen PPE ar gyfer diogelu rhag coronafeirws, ee gofal iechyd. Mae'r llinell hon ond yn ystyried PPE i weithleoedd nad ydynt eu hangen ar gyfer diogelu rhag coronafeirws</p> <ul style="list-style-type: none"> - Adnabod tasgau lle gellir dod i gysylltiad â sylweddau peryglus yn y gweithle a gosod mesurau i ddiogelu pobl – ni ddylai PPE fod yr opsiwn cyntaf, ond yr olaf. 	<ul style="list-style-type: none"> - Gosod systemau i gadw cyflenwadau PPE o dan adolygiad fel gallwch weithredu os bydd eisiau cyn i'r cyflenwad ddod i ben 		

Beth yw'r peryglon?	Pwy ellir cael eu niweidio a sut?	Rheolaethau	Pa weithredoedd ychwanegol ydych angen eu hystyried i reoli'r risgau?	Pwy sydd angen ei wneud?	Erbyn pryd mae angen ei wneud?
		<p>Dylai gosod rheolau amnewid neu peirianyddu yn yr achos cyntaf</p> <ul style="list-style-type: none"> - Adnabod pa dasgau sydd angen PPE ar eu cyfer a rhagnodi'r ffactor diogelu cywir sydd eisiau ar gyfer y tasgau hynny - Darparu'r ffactor diogelu cywir ar gyfer pob tasg yn hytrach na'r cyfarpar diogelu anadlol ffactor (RPE) diogelu uchaf ar gyfer pob tasg - Lle bo'n ofynnol, sicrhau bod y sawl sy'n defnyddio RPE yn cael prawf acffitio wyneb. - Lle bydd yn anodd cael cyflenwadau, dilyn canllawiau HSE a gosod rheolau sy'n addas i'ch gweithle <p>(Nodwch – nid yw gorchuddion wyneb yn PPE. Mae rhai amgylchidau pan fydd gwisgo gorchudd wyneb yn ofynnol fel mesur rhagofalus. Lle bydd pobl yn dewis eu gwisgo dylech eu cefnogi). Mae rhagor o gyngor ar gorchuddion wyneb ar GOV.UK.</p>			

Gwybodaeth bellach

[Cyngor diweddaraf HSE ar goronafeirws](#)

Am ragor o wybodaeth am iechyd a diogelwch, neu er mwyn adrodd anghysondebau yn y canllawiau hyn, ewch i

www.hse.gov.uk Gallwch [archebu cyhoeddiadau prisiedig HSE](#). Mae cyhoeddiadau prisiedig HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar: www.hse.gov.uk/coronavirus/assets/docs/risk-assessment.pdf

© *Hawlfraint y goron* Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.hse.gov.uk/copyright am fanylion.

Cyhoeddwyd gyntaf yn Saesneg 07/20. Cyhoeddwyd gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 10/20